



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid – Canfyddiadau Dros Dro

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil Gymdeithasol

Rhif: 107/2014

Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPF) yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ceir chwe elfen i'r fframwaith, a gynlluniwyd i gynyddu ymgysylltu a datblygu ieuencid.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith, gan sicrhau cydweithio agos rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuencid cymunedol a gwirfoddol, ysgolion, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid eraill. Mae gan y Fframwaith gyfnod gweithredu dwy flynedd i ddechrau.

Crynodeb yw hwn o ganfyddiadau dros dro y gwerthusiad (a arweinir gan ICFI) o'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r YEPF, ac mae'n defnyddio ymchwil a gynhaliwyd ym mis Awst/Medi 2014.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys: adolygiad dogfenol o gynlluniau awdurdodau lleol i weithredu'r YEPF; cyfweiliadau gyda 162 o randdeiliaid a chynrychiolwyr mewn 22 awdurdod lleol; 19 darparwr ôl-16; 8 mewn ysgolion; 24 gyda Gyrfa Cymru; 8 yn y Ganolfan Byd Gwaith; ac 8 yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Cynhaliwyd 19 cyfweiliad hefyd gyda rhanddeiliaid cenedlaethol o Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner sydd â diddordeb yn y rhaglen oherwydd eu cyfraniad at ei datblygu neu ei darparu.

Canfyddiadau Allweddol:

- Mae pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth weithredu'r YEPF ers mis Hydref 2013. Roedd llawer o'r cyfweledigion wedi canmol yr YEPF fel y strategaeth/arweiniad gorau yn ymwneud â phobl ifanc i'w gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweledigion yn credu bod yr YEPF wedi gwneud gwahaniaeth i gydweithredu, cefnogaeth i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, ac ymgysylltiad gan arweinwyr. O ganlyniad, mae bron pob awdurdod lleol wedi gwneud newidiadau sylweddol wrth weithredu elfennau o'r Fframwaith.
- Yn gyffredinol, mae trefniadau rheolaeth strategol da wedi'u sefydlu. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol ac mae'r rhan fwyaf wedi sefydlu grŵp llywio strategol ar gyfer yr YEPF. Mae'n ymddangos bod aelodaeth grwpiau yn gymharol gynhwysfawr, er bod rhai awdurdodau lleol wedi adrodd am fylchau mewn aelodaeth y maent yn dal i geisio eu llenwi. Er bod y sylfeini ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw rhai wedi sefydlu trefniadau llywio digonol eto, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn y tymor byr.
- Mae trefniadau gweithredol yn datblygu. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu i gydlynu'r broses o weithredu'r fframwaith. Yn gyffredinol, mae'r Cydlynwyr hyn yn cyflawni rôl weithredol, er bod hyn yn fwy anodd pan ychwanegir cyfrifoldebau gweithredol at y rolau strategol a chydlynu y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni'n bennaf i weithredu'r Fframwaith.
- Mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygu a gweithredu'r YEPF, ond mae ansawdd y rhain yn amrywio ac nid yw methodoleg rheoli prosiect yn cael ei defnyddio bob amser. Mae hyn yn achosi risg i weithredu'r YEPF.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Ychwanegol

Trefniadau rheolaeth strategol

- Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd trefniadau llywio yn llawn, ceir tystiolaeth bod grwpiau strategol mwy sefydledig yn gweithredu'n dda: mae presenoldeb yn dda; ceir enghreifftiau o arweinyddiaeth weithredol gan Uwch Swyddogion Atebol; mae partneriaid yn gweithio'n dda i oruchwylio'r broses weithredu; ac mae data a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n well.
- Rhwystr allweddol rhag sefydlu a chynnal trefniadau llywodraethu strategol cadarn yw ad-drefnu gwasanaethau awdurdodau lleol yn barhaus o ganlyniad i doriadau mewn cyllid.

Trefniadau gweithredol

- Mae llawer o awdurdodau lleol wedi ymsefydlu swyddogaethau'r Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu ar draws sawl rôl wahanol i gydnabod eu cyfrifoldebau pellgyrhaeddol. Yn gyffredinol, mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r rôl hon ac yn credu ei bod wedi arwain at newid mawr.
- Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r trefniadau i ddatblygu elfennau o'r YEPP yn eglur. Mae'r awdurdodau lleol hyn wedi hwyluso gwaith partneriaeth er mwyn creu datrysiadau ymarferol. Mewn eraill, mae'r trefniadau'n llai datblygedig. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn sydd â threfniadau ar gyfer datblygu sy'n ymdrin â phob elfen a ddylai fod yn symud ymlaen.
- Mae gan fwy na hanner yr awdurdodau lleol Brothocolau Rhannu Gwybodaeth¹ wedi'u sefydlu. Yn ogystal, mae gan oddeutu traean o awdurdodau lleol gytundebau lleoli gyda Gyrfa Cymru, sy'n caniatáu ar gyfer rhannu data pum haen â chyswllt a enwyd. Mae partneriaid mewn awdurdodau lleol sydd â Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth a chytundebau lleoli yn gadarnhaol iawn ynglŷn â gallu rhannu gwybodaeth, ac o'r

¹ Mae Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn gytundebau sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth bersonol rhwng sefydliadau partner i gyflawni'r YEPP ar yr un pryd â bodloni safonau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

farn bod hyn yn helpu i wella adnabod yn gynnar ac olrhain.

Adnabod yn gynnar

- Er bod elfen adnabod yn gynnar yr YEPP wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a bod camau gweithredu o fewn y maes hwn ar gyfer pobl ifanc sy'n iau nag 16 oed wedi'u datblygu'n eithaf da, mae nifer o awdurdodau lleol ar ei hôl hi o ran yr elfen hon o'r YEPP. Dylai tua dwy ran o dair o awdurdodau lleol fod mewn sefyllfa i sefydlu system adnabod yn gynnar cyn 16 oed o fis Medi 2014 ymlaen, ond, o ran ôl-16, dim ond tua hanner yr awdurdodau lleol fydd yn gweithredu systemau wedi'u cryfhau o fis Medi 2014 ymlaen.
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol naill ai eisoes wedi sefydlu system adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol sy'n dilyn canllawiau arfer da, neu wedi datblygu system ers lansio'r YEPP, y maent yn ei rhoi ar brawf cyn ei chyflwyno'n gyffredinol. Mae rhai awdurdodau lleol ar gam cynharach o'r broses cynllunio a datblygu.
- Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol sydd wedi datblygu system newydd wedi mabwysiadu proses ddatblygu gadarn, sy'n cynnwys ymgynghori ac adborth gan ystod o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r system newydd ac o'r farn ei bod yn ddefnyddiol.
- Yr her allweddol o ran systemau adnabod yn gynnar cyn 16 oed yw sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r system yn gyson ac yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol.
- Yn gyffredinol, mae'r prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y grŵp 16-18 oed na'r grŵp iau nag 16 oed; mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt wedi cymryd llawer o gamau yn y maes hwn hyd yma.
- Er bod enghreifftiau o arfer da o ran systemau mewnol darparwyr ôl-16 ar gyfer adnabod yn gynnar, nid yw'n eglur a yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth. Gellir archwilio hyn yn ystod cam nesaf yr ymchwil.
- Mae derbyn hysbysiad systematig gan ddarparwyr ôl-16 am bobl ifanc sy'n

ymddieithrio o gwrs neu'n tynnu'n ôl yn ffurfiol yn her barhaus i lawer o awdurdodau lleol a staff Gyrfa Cymru.

Broceriaeth

- Mae cynlluniau a threfniadau ar gyfer gwaith arweiniol yn cael eu datblygu mewn llawer o awdurdodau lleol, ond mae'n annhebygol y bydd y garreg filltir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol yn cael ei chyflawni. O ran pobl ifanc iau nag 16 oed, mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn y broses o weithredu cynigion ar gyfer gwaith arweiniol newydd/wedi'i gryfhau o fis Medi 2014 ymlaen, neu y byddant yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau lleol eraill, roedd trefniadau cymharol gadarn eisoes yn bodoli ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed a fydd yn parhau. O ran pobl ifanc ôl-16, bydd tua thraean o'r awdurdodau lleol yn gweithredu cynigion ar gyfer gwaith arweiniol newydd/wedi'i gryfhau o'r dyddiad hwn ymlaen.
- O ran pobl ifanc iau nag 16 oed, mae rhai awdurdodau lleol yn mabwysiadu paneli ysgol fel fforwm ar gyfer neilltuo gweithiwr arweiniol ac adolygu cynnydd. O ran pobl ifanc 16-18 oed, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio grwpiau ymarferydd amlasiantaethol ar lefel yr awdurdod lleol. At ei gilydd, nid yw hyfforddiant ar gyfer gweithwyr arweiniol wedi'i gynnal eto.
- Mae ystod o heriau yn gysylltiedig â gweithredu gwaith arweiniol, gan gynnwys: oedi wrth sefydlu Protocolau Rhannu Gwybodaeth, sy'n atal broceriaeth effeithiol; anawsterau wrth gyfleu'r neges fod gwaith arweiniol eisoes yn digwydd ac nad yw'n ddull newydd; diwedd prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n darparu adnoddau ar gyfer gwaith arweiniol ar hyn o bryd; heriau wrth sefydlu a chyfleu proses eglur ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth; a sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cymryd rhan mewn grwpiau gweithredol i hwyluso broceriaeth.

Olrhain

- Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol sydd â system adnabod yn gynnar a arweinir gan ddata ar waith ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed yn yr ysgol, wedi sefydlu prosesau ar

gyfer gwneud gwaith dilynol ac adolygu unwaith y tymor o leiaf.

- Ceir enghreifftiau o ymdrechion lleol i gryfhau olrhain ar yr adeg trosglwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys: defnyddio grwpiau ymarferwyr i wella rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed ac ôl-16; neilltuo tiwtoriaid mewn colegau i weithredu fel cyswllt ag ysgolion penodol; defnyddio gweithiwr arweiniol pobl ifanc iau nag 16 oed i barhau i ddarparu cymorth yn ystod y tymor cyntaf mewn darpariaeth ôl-16.
- Yn gyffredinol, mae llai o Brocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith o ran pobl ifanc ôl-16, ac felly bu'n fwy heriol i awdurdodau lleol a phartneriaid olrhain y grŵp 16-18 oed. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn falch iawn o dderbyn data pum haen misol gan Gyrfa Cymru, hyd yn oed pan fo hwnnw ar gael mewn fformat cyfanredol, dienw yn unig. Ystyrir bod hyn yn welliant mawr.
- Mewn rhai awdurdodau lleol lle y mae Protocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith, ceir enghreifftiau o drefniadau a sefydlwyd cyn yr YEPF ar gyfer olrhain yn fisol y rhai hynny sy'n hŷn nag 16 oed am ddwy flynedd gan grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol. Mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda o ran atal ymddieithrio a darparu cymorth ychwanegol pan fo'i angen.
- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi rhoi blaenoriaeth i wella'r trefniadau ar gyfer olrhain pobl ifanc sy'n hŷn na 19 oed a'r broses o'u trosglwyddo i gymorth arall gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Darpariaeth

- Mae pob awdurdod lleol wedi dechrau'r broses o fapio'r ddarpariaeth yn ôl y model pum haen yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu yn arwain y broses o gydlynu'r gweithgarwch hwn ac yn cysylltu â'r partneriaid. Mae map drafft o'r ddarpariaeth wedi'i lunio ym mhob awdurdod lleol.
- Er bod gan sawl awdurdod lleol a phartner farn gadarnhaol ynglŷn â'r wybodaeth y maent wedi'i chael o'r ymarfer, mae'n ymddangos y bu dryswch mewn rhai

awdurdodau lleol ynglŷn â diben y map darpariaeth. Cafodd sawl awdurdod lleol broblemau wrth sicrhau gwybodaeth gywir ac amserol gan ddarparwyr.

- Ychydig iawn o enghreifftiau a geir o awdurdodau lleol sydd wedi cynnal yr ymarfer mapio darpariaeth ochr yn ochr â dadansoddiad o wybodaeth am y farchnad lafur. Yn ogystal, ychydig o enghreifftiau a geir o ddadansoddiad systematig o'r ddarpariaeth o gymharu ag anghenion pobl ifanc.
- Adroddodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth trwy'r ymarfer mapio darpariaeth. Angen cyffredin a amlygwyd ar draws nifer o awdurdodau lleol yw'r diffyg darpariaeth Haen 2, a hynny ynghyd â dyblygu darpariaeth Haen 3 mewn rhai achosion.
- Mae rhai enghreifftiau'n dod i'r amlwg o fyrdau strategol YEPF yn ymateb i fapiau darpariaeth a gwaith grwpiau gweithredol i ddod o hyd i ddarpariaeth a cheisio llenwi bylchau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw'n ymddangos bod cynlluniau eglur ar waith ar gyfer sut y bydd bylchau yn y ddarpariaeth a amlygwyd trwy'r ymarfer mapio yn derbyn sylw.
- O ran y Broses Ymgeisio Gyffredin (CAP)² a'r Warrant leuencid³, y prif rwystr rhag gweithredu yw sicrhau ymrwymiad ysgolion. Adroddodd rhanddeiliaid nad yw llawer o ysgolion o'r farn bod agwedd ymgeisio ar-lein y CAP a'r Warrant leuencid yn fuddiol.

Cyflogadwyedd

- Nid yw awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar yr elfen hon o'r YEPF hyd yma, ac ychydig o gamau sydd wedi cymryd ers mis Hydref 2013.

² Mae'r Broses Ymgeisio / Prosbectws Ardal Cyffredin yn cael ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddiudedd a chynhwysfawr am gyrsiau ar gael i ddysgwyr i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu cam nesaf mewn addysg neu hyfforddiant.

³ Cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer unrhyw berson ifanc sy'n trosglwyddo am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed.

- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru⁴ a darpariaeth gyflogadwyedd arall yn eu map darpariaeth ac yn bwriadu sicrhau bod yr holl weithwyr arweiniol yn ymwybodol o gyfleoedd datblygu sydd ar gael trwy'r rhaglenni hyn.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnwys amcan i gynyddu nifer y cyfleoedd lleoliad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith eraill a gynigir gan gyflogwyr sector cyhoeddus yn eu cynllun gweithredu YEPF.

Atebolrwydd

- Yn unol â'r cynllun gweithredu cenedlaethol, mae pob awdurdod lleol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd wrth weithredu eu cynllun gweithredu YEPF. Bu cyfathrebu aml a rheolaidd rhwng cyfarfodydd hefyd.
- Mae pob awdurdod lleol wedi dechrau derbyn data misol gan Gyrfa Cymru ar nifer y bobl ifanc 16-18 oed sydd ym mhob haen o'r model pum haen. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i gyflwyno i grwpiau llywio strategol mewn nifer gynyddol o awdurdodau lleol i hwyluso'r broses o fonitro datblygiad o ran cynyddu cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sydd yn haenau 4 a 5.
- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r YEPF hyd yma. Maent o'r farn bod angen i'r broses weithredu ddatblygu ymhellach cyn y gellir cynnal ymgynghoriad ystyrlon.

Y Camau Nesaf

Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo, gan gynnwys datblygu data mesurau addas o effaith, a bydd yr adroddiad terfynol ar y gwerthusiad ffurfiannol o'r YEPF yn cael ei gyhoeddi yn yr haf 2015. Bydd yn darparu asesiad llawn o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Fframwaith, yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r prif heriau.

⁴ Mae'n darparu cyfle am swydd chwe mis i bobl ifanc ddi-waith ar gyflog uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol am o leiaf 25 awr yr wythnos.

Awdur: Rakhee Patel (ICFI)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

David.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 5485

ISBN: 978-1-4734-2621-4

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru,
16 Rhagfyr 2014

© Hawlfraint y Goron 2014



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded
Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle y nodir fel
arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>